Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd	**Naomi Stocks**
Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Hydref 2017	Clerc y Pwyllgor
	0300 200 6565
Amser: 09.15	SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod (09.15 – 09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Ymchwiliad i dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel – sesiwn dystiolaeth 10

(09.30 – 10.30) (Tudalennau 1 – 26)

Angharad Mair, Cyfarwyddwr Gweithredol, Tinopolis

Meirion Davies, Cyfarwyddwr Datblygu Menter Iaith Conwy yn cynrychioli'r Mentrau Iaith

3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn perthynas â diogelwch tân mewn tyrrau o fflatiau yng Nghymru

(Tudalennau 27 – 30)

3.2 Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg mewn perthynas â gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

(Tudalennau 31 – 41)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 19 Hydref 2017

Egwyl (10.30 – 10.40)

5 **Ymchwiliad i dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel – trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2**

(10.40 - 10.55)

6 **Ymchwiliad i dlodi yng Nghymru: Cymunedau yn Gyntaf – y gwersi a ddysgwyd – ystyried yr adroddiad drafft**

(10.55 - 11.25) (Tudalennau 42 - 81)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cefndir:

Tinopolis yw un o'r cwmniau teledu annibynnol mwyaf yn Ewrop ac yn yr Unol Daleithiau. Rydym yn gweithio ym mhob maes – ffeithiol, adloniant, chwaraeon, drama a'r cyfryngau digidol. Mae ein rhaglenni yn cael eu darlledu dros y byd ac mae gennym bresenoldeb pwysig yn y farchnad gyfryngau fyd-eang. Yn yr UDA rydym yn cynhyrchu rhaglenni teledu i bob un o'r prif rwydweithiau.

Mae grwp Tinopolis yn cynnwys rhai o'r enwau mwyaf eu parch yn y sector teledu. Mentorn Media yw cynhyrchydd ffeithiol mwyaf profiadol y DU. Sunset+Vine yw'r cynhyrchydd chwaraeon annibynnol mwyaf blaenllaw. Enillodd Daybreak wobrau lu am ddramau ac mae gan Pioneer Productions enw da dros y byd am raglenni ffeithiol arbenigol sy'n torri tir newydd. Yn yr Unol Daleithiau mae A. Smith and Co. yn arwain y farchnad mewn adloniant ffeithiol ac mae Magical Elves yn gyfrifol am raglenni ffeithiol ac adloniant ffeithiol sy'n arloesi yn y maes.

Rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth rhaglenni aml-blatfform yn ogystal ag adnoddau digidol i'r sectorau corfforaethol ac addysg.

Tinopolis yn Llanelli

Saif canolfan deledu Tinopolis Cymru yng nghanol tre Llanelli, a chaiff ystod eang o raglenni teledu eu cynhyrchu o'r fan hyn gan gynnwys rhaglenni byw, chwaraeon, a dogfennau o'r safon uchaf. Mae rhai wedi ennill sawl gwobr Bafta. O'r stiwdio sydd a'i ffenest yn edrych ar brif stryd y dre daw rhaglenni dyddiol S4C. Mae Heno am 7 o'r gloch bob nos bellach yn asgwrn cefn i amserlen nosweithiol y sianel ac rydym bellach wedi bod yn cynhyrchu'r rhaglen yn llwyddiannus ers 26 blynedd. Darlledir y rhaglen gylchgrawn brynhawn, Prynhawn Da, yn ddyddiol am 2pm. O'r ganolfan hon hefyd daw'r gyfres boblogaidd Ralïo, uchafbwyntiau y Tour de France a'r gyfres gerddorol Stiwdio Gefn.

Mae gwreiddiau'r cwmni yn holl bwysig i ni. Tinopolis Cymru yw cwmni teledu annibynnol rhanbarthol mwyaf Prydain. Mae'r gair Tinopolis yn gyfystyr â Llanelli ac mae'n bwysig i ni bod yr hunaniaeth unigryw a ddaw o hynny ynghyd â Chymreictod y cwmni yn cael ei hyrwyddo gyda'r enw dros y byd. Mae'r iaith Gymraeg yn amlwg ar gardiau busnes a gohebiaeth y cwmni ac yn ein gwneud yn wahanol.

Mae cyfraniad Tinopolis i economi yr ardal yn hollbwysig wrth gynnig cyfleoedd pwysig ym maes y diwydiannau creadigol. Golyga hyn bod cyfleoedd i bobl ifainc uchelgeisiol sydd a'u bryd ar weithio ym myd teledu.

Cyflogir dros gant trideg o o bobl yn Llanelli a Chaernarfon. Doedd y diwydiant teledu ddim yn bod yn Abertawe ac yna yn Llanelli tan i ni gyrraedd ond bellach mae'r swyddi

a'r hyfforddiant sy'n cael eu cynnig yn unigryw i'r gorllewin o Gaerdydd. Rydym erbyn hyn yn rhan naturiol o'r gymdogaeth. Ac eithrio'r Awdurdod Lleol, ni sy'n darparu y nifer mwyaf o swyddi yn yr iaith Gymraeg a rheiny yn swyddi o safon. Mae cefnogaeth S4C ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn hanfodol i ddatblygiad creadigol a thechnegol cannoedd ar gannoedd o bobl ifainc yr ardal ac sydd, oherwydd buddsoddiad S4C yn y Gorllewin, wedi gallu dysgu sgiliau newydd mewn diwidiant sydd â chyflogau da tra'n aros yn eu hardal enedigol i fagu teuluoedd a chyfrannu ymhellach i'w cymdeithas leol.

Cyn i Tinopolis symud i'w bencadlys newydd yng nghanol Llanelli roedd yr adeilad wedi mynd a'i ben iddo. Hwn oedd hen siop Tesco y dre cyn i'r archfarchnad adleoli i Barc Trostre ar y cyrion. Yn sgil buddsoddiad sylweddol gan Tinopolis a gweledigaeth ac uchelgais i geisio sefydlu cwmni o bwys yn nhre'r Sosban adnewyddwyd yr hen siop yn ganolfan fodern a deniadol. Dyma arweiniodd at ddatblygu ochr ddwyreiniol tre Llanelli, sydd erbyn hyn yn ardal o bwysigrwydd anferth ac adfywiad cyffrous wedi agor theatr a chanolfan gelfyddydol newydd Y Ffwrnes drws nesaf i Tinopolis. Gwelodd y Cyngor Sir y cyfle i gysylltu Tinopolis gyda'r ganolfan newydd ac wrth ei hadeiladu mae ceblau pwrpasol wedi eu gosod rhwng y ddau adeilad er mwyn gallu defnyddio'r theatr at bwrpas darlledu. Mae modd i S4C hefyd fanteisio o'r bartneriaeth yma. Bydd y cysylltiad rhwng Y Ffwrnes a Tinopolis yn cyrraedd uchafbwynt yn 2018 pan ddaw un o brif wyliau y cyfryngau i Lanelli sef yr Wyl Gyfryngau Geltaidd.

Ar hyn o bryd mae mwy o adnewyddu yn digwydd ar y stryd fawr wrth i'r cyngor gymryd meddiant o rai o'r hen adeiladau gan greu fflatiau o'r radd flaenaf ar y llawr cyntaf. Mae 'na ymdrech lew i ddod a mwy o fywyd i dre a oedd unwaith yn gyda'r mwyaf ffyniannus yn Sir Gâr.

Yn ddi-gwestiwn , mae swyddi da fel sy'n cael eu cynnig gan Tinopolis yn brin ac yn yn cael eu gwrerthfawrogi mewn tref difreintiedig. Yn ôl ymchwil arbennig ar y dre yn 2010 gan y Cynulliad Cenedlaethol roedd lefel y rhai sy'n derbyn budd-dal diweithdra yn Llanelli eisoes yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (Llanelli 4.7%, cenedlaethol 4.6%); a bod 3 o wardiau cyngor y dre (Tyisha, Glanymor a Llwynhendy) ymysg y tlotaf drwy Gymru gyfan. Ychwanegwyd at ddifrifoldeb y sefyllfa economaidd gan doriadau cwmni dur Tata yn Nhrostre.

Mewn hinsawdd o'r fath , mae polisi Tinopolis i greu cwmni rhyngwladol gyda'i bencadlys yn Llanelli yn allweddol i ddatblygiad economaidd. Yn ogystal a'r elfen hon mae bwriad y cwmni i barhau yn driw i Orllewin Cymru yn fodd o fagu hyder o fewn y gymdeithas o'i gylch. Mae hefyd yn atgyfnerthu y teimlad o hunaniaeth Gymreig sy'n allweddol i ddatblygiad cenedlaethol. Yn fwriadol y Gymraeg yw prif iaith y gweithle. Caiff hyn yr effaith o normaleiddio'r Gymraeg i bobl ifainc a fyddai – i fod yn gwbl onest – yn troi i'r Saesneg. Gweler mwy am bwysigrwydd yr ymrwymiad hyn i'r iaith Gymraeg wrth weithredu amcanion a strategaeth Llywodraeth Cymru yn hwyrach yn y ddogfen.

Tinopolis yng Nghaernarfon

Cyn i Tinopolis symud i'w swyddfeydd presennol yn Galeri Caernarfon roedd swyddfeydd y cwmni ar stad y Faenol. Ond pan benderfynodd Cwmni Tref

Caernarfon fuddsoddi mewn adeilad pwrpaspl newydd i hybu'r celfyddydau a chreu canolfan newydd a fyddai'n galon i'r gymuned leol, penderfynom ninnau ein bod am ddangos cefnogaeth i'r dre a'r fenter newydd uchelgeisiol hon wrth logi swyddfeydd yno.

Golyga hyn fod Tinopolis, yn sgil y gwaith ar y rhaglenni dyddiol, yn ran bwysig o gymuned Caernarfon ac yn ran bwysig o economi'r dre. Yn debyg i Lanelli, mae gwaith i Gymry Cymraeg ifainc yn brin. Bellach rydym yn cyflogi dau griw llawn a dau ohebydd yno a pheirianydd sy'n gyfrifol am yr adnodd SNG. Mae bod yn gwmni sydd a buddsoddiad cenedlaethol yn bwysig wrth gynhyrchu rhaglenni dyddiol, gan wneud y rhaglenni yn berthnasol i Gymru gyfan, y de a'r gogledd.

Pwysigrwydd y gwaith ac economi leol i'r iaith Gymraeg

- Mae Tinopolis yn gwmni sy'n fwriadol wedi dewis mai'r Gymraeg yw iaith y gweithle – mae'r gwaith o fudd economaidd mawr mewn ardal ddifreintiedig ond hefyd yn fudd economaidd i siaradwyr Cymraeg
- Mae pobl ifanc felly yn gallu aros yn eu hardal wrth gael gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae siarad Cymraeg yn y gweithle yn normaleiddio'r iaith tu allan i'r gwaith hefyd
- Dylai'r Llywodraeth sicrhau fod ardaloedd difreintiedig cefn gwlad Cymru lle mae'r iaith yn gwanhau yn cael mwy o siawns i ennill cytundebau caffael (ceir mwy am hyn yn ddiweddarach)
- Dylai cynllunio economaidd fynd law yn llaw a'r iaith
- Ni ddylid gweld yr iaith fel rhwystr i ddatblygu'n gwmni rhyngwaladol – mae deall anghenion dwyieithrwydd a diwylliannau gwahanol yn gallu bod yn arf marchnata pwerus dros y byd
- Dylid rhoi cymorth ariannol i fusnesau i gael sicrhau arwyddion dwyieithog ag ati gan wneud yr iaith yn gwbl weledol – gallai hyn ychwanegu at werth economaidd y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn ogystal ag ychwanegu at normaleiddio'r iaith
- Dylai dwyieithrwydd yng Nghymru ddiffinio cymdeithas a chymuned. Ni ddylai'r Gymraeg gael ei gweld fel rhwystr i ffyniant cwmni ond yn hytrach yn arf i lwyddo.

Mae tueddiad yng Nghymru i feddwl mai cwmnïau cyhoeddus fyddai'n gofyn am ddefnydd o'r Gymraeg ond rydym yn dangos bod y Gymraeg yn werthfawr mewn cwmni preifat sylweddol hefyd. Mae Tinopolis yn gwmni Cymraeg ac mae hynny yn rhan o'n brand ni ar draws y byd. Mae hynny yn gymorth i ni fod yn wahanol, i sefyll allan.

Rhaid gofyn y cwestiwn am ffaeleddau'r sector gyhoeddus trwy Gymru wrth beidio ag edrych ar ffyrdd i normaleiddio'r Gymraeg? Oes gormod o bwyslais ar yr angen i gyfieithu dogfennau neu anghenion caffael o'r Saesneg i'r Gymraeg er mwyn ticio bocsys yn unig yn hytrach na sicrhau bod y Gymraeg yn greiddiol, yn enwedig yn yr hen gadarnleoedd sydd bellach wedi colli diwydiant a gwaith? Byddai datblygu economaidd yn y modd yma yn gallu cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg hefyd.

Yng Nghymru rydym yn rhy euog o weld Saesneg fel yr iaith bwysig a'r Gymraeg fel iaith leiafrifol ranbarthol. Ond mae gwledydd eraill yn hen gyfarwydd a dwyieithrwydd a'r angen i fod yn sensitif i ddiwylliannau gwahanol. Rydym wedi gweld fod hyn yn arbennig o wir yn yr Unol Daleithiau ac yn Asia – er mai Saesneg yno hefyd yw'r iaith fawr gryf – mae'r gallu i ddangos ein bod fel pobl yn deall anghenion lleiafrifol yn ein gwneud yn apelgar. Mae'r hunaniaeth yma yn rhan holl bwysig o farchnata'r cwmni ac o lwyddiant cynyddol y cwmni.

Arferion da o ran cyflogi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg

Mae normaleiddio iaith yn y gweithle yn arwain yn bendant at normaleiddio'r iaith ym mywydau'r staff tu allan i'r cwmni hefyd. Ac mae'n bolisi bwriadol gennym i hybu'r defnydd o'r Gymraeg wrth wneud yr iaith yn iaith bob dydd y gwaith. Does dim dwywaith mai Saesneg fyddai nifer o'r staff ifainc yn dewis siarad a'i gilydd onibai eu bod yn gweithio i gwmni sydd a pholisi iaith Cymraeg. Mae hyn yn golygu bod y bobl ifainc hynny yn dod i weld budd economaidd personol o allu siarad yr iaith. Mae ganddynt swyddi da, ac un o'r gofynion yw eu gallu i siarad Cymraeg. Rydym wedi sylwi bod y Gymraeg wedyn yn dod yn ffordd o fyw iddynt tu allan i'r gweithle hefyd – yr iaith a siaredir â chymar, neu wrth benderfynnu trosglwyddo'r iaith i'w plant oherwydd bod gwerth economaidd i'r iaith.

Pan yn cyrraedd Tinopolis dyw pawb ddim yn gallu siarad Cymraeg. Ond gan mai Cymraeg yw iaith ein busnes yn enwedig wrth gynhyrchu rhaglenni i S4C, Cymraeg yw iaith y gwaith. Fel cwmni rydym yn buddsoddi mewn gwersi Cymraeg i staff sydd ddim yn siarad Cymraeg, ac yn talu am wersi gloywi iaith yn y gweithle i'r rhai sy'n llai hyderus. Mae'r staff di-Gymraeg yn cael eu hannog bob amser i siarad Cymraeg ac maent yn fuan iawn yn magu hyder i siarad Cymraeg gyda gwesteion ag ati i'r stiwdio.

Canlyniad hyn yw ein bod yn rhoi sgil newydd i unigolion sy'n golygu os byddant yn gadael i weithio i gwmni arall neu yn llawrydd mae ganddynt allu ychwanegol sy'n cynnig mwy o gyfleoedd iddynt.

Arian cyhoeddus sy'n talu am S4C. Wrth weithredu yn y modd yma tuag at y Gymraeg mae gwerth S4C yn Sir Gaerfyrddin, nid yn unig yn economaidd, ond hefyd yn ieithyddol yn talu ar ei ganfed.

Awgrymiadau ar gyfer hwyluso'r gwaith o hybu datblygu economaidd a'r Gymraeg gyda'i gilydd

Un o'r camau pwysicaf yn bendant fyddai i'r Llywodraeth a Chynghorau i weld datblygu economaidd a ieithyddol yn mynd law yn llaw. Nid wrth ddarparu dogfennau sychlyd ond wrth wneud yr iaith yn amod. Mae hawl gan gytundebau caffael i fynnu bod ystyriaethau economaidd, daearyddol a chymdeithasegol yn bwysig. Byddai

dangos pwysigrwydd i'r iaith hefyd yn gallu rhoi gwell siawns i gwmniau bach – ac onid cefndir entrepreneuraidd o gwmnïau bach sydd gan Gymru wedi'r cwbwl? A rhain sydd mewn peryg o gael eu llesteirio gan anghenion caffael sy'n gweithio'n erbyn y Cymry ac o blaid cwmnïau mawrion rhyngwladol.

Braf gweld fod yr archfarchnadoedd preifat mwyaf yng Nghymru wedi gweld y synnwyr masnachol o gael arwyddion Cymraeg ac mae hyn yn ogystal â normaleiddio'r iaith yn ei chryfhau. Mae cwmni fel John Lewis – ac mae'n bwysig cofio yn y cyd-destun hwn mai John Lewis yw un o'r siopau mawr mwyaf llwyddiannus – wedi cofleidio'r Gymraeg. Maent wedi dangos parch wrth ddefnyddio Cymraeg cywir a deallus ar lawr y siop yn ogystal ac yn eu swyddfeydd. Maent yn sicrhau bod ganddynt staff sy'n medru'r Gymraeg (eto yn rhoi budd economaidd i unigolion yng Nghymru) ac maent yn frwdfrydig tuag at ddigwyddiadau Cymraeg e.e. partneriaethu gyda Llenyddiaeth Cymru wrth gynnal digwyddiadau yn y siop. Mae hyn yn ran o'u strategaeth bwriadol nhw i fod yn ran o'r gymuned – ac mae hynny'n talu iddynt yn economaidd.

Dylai grantiau fod ar gael i bob cwmni yng Nghymru i gael arwyddion dwyieithog ac er mwyn rhoi gwersi Cymraeg i'r staff gyda budd economaidd yn resymeg amlwg tu ôl i'r grantiau – yn ogystal â'r budd o normaleiddio'r Gymraeg. Hefyd, byddai defnydd amlwg o'r Gymraeg yn arf marchnata o ran y diwydiant twristiaeth – yn gwneud Cymru yn wlad ddeniadol wahanol i bob gwlad arall.

Ond heb os, y cyfraniad mwyaf y gall y Llywodraeth ei wneud yw cynllunio economaidd law yn llaw a'r iaith yn yr hen gadarnleoedd – cynllun fyddai'n diogelu cefn gwlad Cymru yn ogystal a bod yn gymorth i gadw'r iaith yn fyw. Mae Cymru yn wlad rhy fach i gael ei swyddi a'i breintiau economaidd wedi eu canoli yng Nghaerdydd. Mae angen bywyd economaidd ar gefn gwlad Cymru yn ddybryd. Cynllunio economaidd gofalus wneith gadw pobl ifanc a theuluoedd ifanc yn eu broydd genedigol. Dyma fyddai'n cadw ysgolion ar agor a gwaith i athrawon. Byddai'n creu economïau bach newydd i ddarparu cyfleusterau i'r rhain e.e. siopau bach a busnesau bychain. Byddai'n haws i bobl fentro. Byddai'n caniatáu mynd ati o ddifri i geisio achub yr iaith rhag crebachu ymhellach wrth roi'r iaith a'r economi law yn llaw. Yn fwy na dim byddai'n gwneud Cymru yn wlad decach i bawb. Gyda gweithio o'r cartre yn digwydd yn gyson mae sicrhau gwasanaeth rhyngrwyd effeithiol yn hanfodol.

Gwaith Cymunedol Tinopolis

Rydym yn ceisio bod mor hael a phosib wrth gynnig nawdd – naill ai trwy rodd ariannol neu trwy gynnig adnoddau neu gyfleusterau am ddim.

Rydym yn annog ein staff hefyd i fod yn ddinasyddion da. Fe'u hysgogir i gymryd rhan yn eu cymunedau yn lleol. Nid cyflwynwyr hyd braich yw'n cyflwynwyr chwaith ond maent yn cael cefnogaeth gan Tinopolis i ymweld â chymunedau ar hyd a lled Cymru ac i siarad a chymdeithasau heb godi tâl. Mae ein presenoldeb amlwg yn y gogledd trwy waith ein swyddfeydd yn Galeri Caernarfon yn ychwanegu at y teimlad ein bod yn gwmni darlledu sy'n gwasanaethu Cymru gyfan.

I grynhoi

Wrth i'r gweithfeydd trymion diflannu ac wrth i economïau traddodiadol ddiflannu, mae fwy fwy o angen i'r Llywodraeth fuddsoddi mewn partneriaeth â busnes i roi cyfleoedd i bobl hyfforddi ac ail-hyfforddi mewn sectorau ble mae galw. Wrth gwrs mewn ardaloedd gwledig rhaid goresgyn y rhwystrau sy'n dal i barhau yn nhermau "is-adeiledd. Yr allwedd i symud ymlaen yw rhwydwaith o ffyrdd effeithiol. Mae Cymru'n dal i ddioddef o ddiffygion cysylltiadau trafnidiaeth, argaeledd band-llydan digonnol ond hefyd cefnogaeth gwasanaethau ar draws y sbectrwm. Teimlwn fod model busnes Tinopolis yng Nghymru dros y blynyddoedd yn esiampl wych o'r hyn sy'n bosib gyda chefnogaeth.

Y Mentrau Iaith

Sut y gall strategaeth economaidd a chynllun cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru:

1. greu twf economaidd sy'n fwy cynhwysol ac sydd o fudd i bobl a lleoedd fel ei gilydd ledled Cymru;

Credwn fod lles y Gymraeg yn gysylltiedig efo ffyniant cymunedau ac unigolion. Rydym yn awyddus fod unrhyw strategaeth economaidd a chynllun cyflogadwyedd yn ystyried y canlynol o ran y Gymraeg;

Allfudiad


Yn ôl gwaith ymchwil gan Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010) ar ddemograffeg flynyddol siaradwyr Cymraeg, mae ffactorau sydd yn gwanhau sefyllfa'r Gymraeg yn deillio o ddiffyg cyfleoedd gwaith, yn benodol gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn ei dro yn arwain at sefyllfa o allfudo o Gymru. Yn ôl astudiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2010) amcangyfrifwyd bod colled flynyddol o 3,000 o siaradwyr Cymraeg.

"Around a third of 1991's 15-year-old Welsh-speakers had migrated to England by 2001."

(Delyth Morris (2010) 'Welsh in the 21st Century', Cardiff; University of Wales Press).

Colli Iaith a cholli sgiliau

Oherwydd y diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar ol byd ysgol mae nifer chêl o bobl ifanc (enwedig lle nad oes ganddynt cyswllt naturiol efo'r Gymraeg)yn colli eu gallu i siarad Cymraeg ar ol gadael addysg. Gallwn weld hyn o'r graff isod;



% yn gallu siarad Cymraeg trwy Gymru fesul oed - Cyfrifiad 2011

Diffyg Gwasanaethau

Ar un llaw rydym yn dioddef allfudiad brawychus o bobl ifanc sydd yn medru'r Gymraeg tra ar y llaw arall rydym yn dioddef o ddiffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn ein rhwystro i fyw ein bywydau beunyddiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Eto credwn mai dyma ble mae un o brif wendidau ac un o brif obeithion y Gymraeg yn gorwedd.

Y Sefyllfa Bresennol

Ar hyn o bryd nid oes cynllun penodol yn ymwneud a'r Gymraeg sydd yn dylanwadu ar ffactorau megis mewnfudo, allfudo a gwerth economaidd y Gymraeg.

O'r wybodaeth yr ydym wedi casglu drwy weithio yn gymunedol ar draws Cymru, mae sawl her yn bodoli ar hyn o bryd sydd angen eu taclo:

- Yn hanesyddol mae'r Gymraeg wedi dioddef o ddiffyg statws economaidd
- Nid yw'r sgil o siarad Cymraeg yn cael ei gydnabod gan ganran uchel o gyflogwyr
- Mae siaradwyr Cymraeg ifanc yn gadael Cymru a'u bröydd genedigol i chwilio am waith
- Mae' rhai sydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn colli'r iaith oherwydd diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Does dim trosglwyddo iaith yn digwydd o fewn nifer o deuluoedd oherwydd diffyg statws i'r Gymraeg.
- Mae anhawster cyson i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Nifer isel iawn o ddysgwyr yn dod yn rhugl yn y Gymraeg

Mae datblygiadau diweddar o ran y Gymraeg wedi rhoi statws i'r iaith. Bydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cryfhau'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwn y Gymraeg. Gwelwn hwn fel gyriant i'r angen am Farchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg fydd yn cyplysu sgiliau efo anghenion gwasanaeth.

Y Gobaith

Credwn felly dylsai'r strategaeth economaidd a chynllun cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru: ystyried creu cynllun farchnad lafur Cymraeg. Bydd yn creu twf economaidd sy'n fwy cynhwysol ac sydd o fudd i bobl a lleoedd fel ei gilydd ledled Cymru gan fydd yn ;

- Datblygu'r Gymraeg fel catalydd economaidd
- Datblygu'r Gymraeg fel cyfrwng i ddatblygu economaidd ac adfywiol

Gwneir hyn drwy;

- Adnabod a mesur y galw am wasanaethau Cymraeg
- Cyplysu'r angen am wasanaeth efo sgiliau, yn ogystal ac atgyfodi cynllun Llwybro
- Ehangu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg
- Cyplysu'r angen efo cyfleoedd gwaith a hyfforddiant
- Adnabod a hwyluso cyfleoedd economaidd newydd oherwydd yr angen am wasanethau Cymraeg
- Adnabod a hwyluso cyfleoedd economaidd newydd trwy cyfrwng y Cymraeg

2. lleihau cyfran y bobl sydd ag incwm isel yng Nghymru;

Profiad y Mentrau

Mae llawer o Fentrau yn cyffwrdd ar y fath yma o waith o greu marchnad lafur Cymraeg ei hiaith. Mae'r Mentrau yn cyflogi cannoedd i gynnig gwasanaethau Cymraeg neu gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg sydd yn ymateb i anghenion lleol, e.e.

- Cynlluniau gofal plant
- Hyfforddiant Awyr Agored

mae nifer yn cael ei sefudlu fel Mentrau Cymdeithasol newydd;

- Siopau Llyfrau Cymraeg
- Cwmni Cyfieithu
- Meithrinfeydd

Mae cyfleoedd yma na fuasai'n bydoli heblaw am y Gymraeg yn cynorthwyo i leihau'r gyfran y bobl sydd ag incwm isel.

Ardaloedd % uchel

Yn anffodus mae nifer o ardaloedd sydd a % uchel o siaradwyr Cymraeg hefyd yn ardaloedd cymharol dlawd e.e. mae'r cyfartaledd cyflog yng Ngwynedd, sef £350 yr isaf yng Nghymru. Mae diffyg ffyniant yn yr ardaloedd hyn yn arwain yn anorfod at allfudo o bobl ifanc, sydd yn gwanhau y Gymraeg yn sylweddol.

Denu gwaith a datganoli i'r Gogledd Orllewin.

Mae gwirioneddol angen lleoli mwy o waith y Llywodraeth yn ardaloedd tebyg. Rydym yn croesawu'r buddsoddiad sydd wedi dod i Gaerfyrddin ond mae'r Gogledd orllewin wedi ei siomi yn enfawr yn ddiweddar drwy ddiffyg denu'r Awdurdod Cyllid Cymru Coleg neu greu Ysgol Feddygol ym Mangor.

Credwn fod angen gweld y perthynas rhwng yr ardaloedd Cymraeg a gweddill y wlad fel un cyd-ddibynnol lle fedrwn ddatblygu farchnad lafur budd yn cryfhau'r cymunedau Cymraeg a rhwydweithiau Cymraeg ar draws y wlad.

3. Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd rhwng gwahanol grwpiau o bobl;

Credwn buasai gweithredu cynllun Farchnad Lafur Cymraeg yn mynd i'r afael efo anghydraddoldebau gan fuasai yn cynnig cyfle i'r rhai sydd â Chymraeg fel iaith a sgil gall ei ddefnyddio i gael hyd i waith. Nid yw hyn yn digwydd yn ddigonol ar hyn o bryd.

Credwn yn gryf hefyd fod angen i bobol nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg ond sydd ar sgiliau perthnasol fel arall gallu myned hyfforddiant iaith ddwys er mwyn ei neud yn gymwys i gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg.

4. Ffyrdd o gynyddu sicrwydd gwaith yng Nghymru;

Trwy gynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a gweithleoedd sydd yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith weithredol rydym yn sicrhau mwy o gyfleoedd gwaith yng Nghymru na fuasai'n bodoli fel arall.

Credwn bydd yn cyfrannu yn helaeth i leihau allfudiad o bobl ifanc

Rhoi cyfle i rai sydd a'r Gymraeg fel iaith iddynt ei ddefnyddio i ganfod gwaith lle nad yw yn digwydd ar hyn o bryd.

Tu hwnt i waith y mentrau mae angen ystyried yr egwyddorion yma i sicrhau sut bydd rhai o strategaethau'r Llywodraeth yn cael ei gweithredu ee

Cymraeg 2050 (Strategaeth y Gymraeg 2017)

Bydd angen cynnydd sylweddol yn y nifer o athrawon sydd ar gael i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i gyrraedd nod o gynhyrchu 1000,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mwy na Geiriau(gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol 2012)

Mae angen denu a hyfforddi llawer mwy o siaradwyr Cymraeg er mwyn gallu gweithredu'r strategaeth.

Mentrau Newydd

Credwn drwy ddatblygu rhaglenni uchelgeisiol i greu mentrau newydd sydd yn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg gallwn ddefnyddio un o brif nodweddion yr ardal i'w mantais. Gallwn weld esiamplau o'r fath fel cwmni **Galw** ym Mhorthmadog sydd yn darparu gwasanaeth hollol ddwyieithog i'w cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaethau ar ran Traveline Cymru ayyb.

Ar hyn o bryd mae'r Mentrau Iaith a FourCymru, drwy nawdd y Cynllun Datblygu Wledig ar fin dechrau ymchwilio i weld pa fath o clystyrau sydd modd ei sefydlu ar draws y wlad.

Y Mesur Iaith Newydd

Pe bai cynnwys rhai adrannau o'r Sector Preifat o fewn y mesur newydd (Banciau ac Archfarchnadoedd e.e.) buasai rhaid iddynt ddarparu gwell gwasanaeth yn y Gymraeg, sydd ond yn deg i gwsmeriaid iaith Gymraeg. Ond sgil effaith pwysig arall o hyn buasai rhaid i'r cwmnïau yma wedyn prynu mewn mwy o wasanaethau arbenigol o Gymru i ddarparu'r gwasanaethau yma. Sgil effaith hyn buasai creu mwy o swyddi yma yng Nghymru.

5. Casgliad

Credwn gall y Gymraeg cyfrannu tu ag at strategaeth economaidd a chynllun cyflogadwyedd. Yn wir yn ddiweddar datganwyd fod yr Iaith Basgeg yn cyfrannu 4.2% i GDP Wlad y Basg (Llywodraeth Gwlad y Basg 2016). Mae rhaid i'r Gymraeg ddod yn rhan gynyddol o fywyd economaidd os yw am oroesi a datblygu.

Hefyd mae angen cysoni'r buddsoddiad ym myd addysg Cymraeg efo'r un buddsoddiad yn y byd gwaith er mwyn creu dilyniant teilwng. Buaswn yn croesawi pe tai y sector trydyddol (Colegau Cymru) yn cael buddsoddiad tebyg i'r sector uwch (Y Coleg Cymraeg).

Felly credwn fod unrhyw strategaeth angen cymerid yr egwyddorion o cyplysu sgiliau efo swyddi ac hyfforddiant yn ogystal â galluogi partneriaid cymunedol fel y Mentrau Iaith i weithredu rhaglenni uchelgeisiol o greu mentrau cymdeithasol newydd i ddarparu gwasanaethau a chreu swyddi.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

4 Hydref 2017

Annwyl Carl

Diogelwch Tân mewn Tyrau o Fflatiau yng Nghymru

Diolch i chi ac i Lesley am roi tystiolaeth lafar ar 27 Medi. Yn dilyn y sesiwn, hoffem ofyn am wybodaeth bellach ac eglurder ar nifer o faterion. Er mwyn bod yn gyflawn, rwyf hefyd wedi cynnwys y meysydd lle rydych chi neu eich swyddogion wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o wybodaeth.

Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Tân

Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Tân, a nodir y bydd y Grŵp yn rhoi cyngor cychwynnol i chi yr wythnos hon. Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i wneud rhyw fath o ddatganiad i'r Aelodau, naill ai'n ysgrifenedig neu mewn datganiad llafar, yn fuan iawn. Fodd bynnag, yng ngoleuni pwysigrwydd y materion hyn, byddwn yn ddiolchgar am unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallwn gyflawni ein rôl o graffu o ran gwaith y grŵp, ei gyngor a'i argymhellion ynghyd â'ch ymateb. Byddai cyhoeddi'r argymhellion a'r ymateb, er enghraifft, yn helpu i graffu'n effeithiol ac yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch penderfyniadau a wneir.

Buasem hefyd yn gwerthfawrogi pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch gwaith y Grŵp, ac unrhyw waith pellach y byddwch yn comisiynu'r Grŵp i'w wneud.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Y sector preifat

Er ein bod yn cydnabod gwaith yr holl bartneriaid i ymgysylltu â'r sector preifat, rydym yn pryderu bod perchenogion / asiantau rheoli 31 o dyrau o fflatiau, yr ydych wedi methu â chysylltu â nhw. Rydym hefyd yn pryderu nad oes nifer derfynol ar faint o dyrau o fflatiau sydd mewn perchnogaeth breifat ledled Cymru. Rydym am sicrhau bod trigolion yn y sector preifat yn cael yr un lefel o wybodaeth a chymorth â'r rheini mewn tai cymdeithasol.

A allech chi ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y byddwch yn sicrhau bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn nodi pob twr o fflatiau preswyl mewn perchnogaeth breifat? A ydych yn hyderus bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddynt i sicrhau bod blociau o fflatiau sydd mewn perchnogaeth breifat yn bodloni eu rhwymedigaethau ac yn ymgysylltu â thrigolion?

Mae wedi dod i'n sylw bod pryderon y gallai fod yn anodd i bobl sicrhau morgeisi ar eiddo mewn blociau o fflatiau, hyd yn oed os nad oes cladin ar y blociau. A yw hwn yn fater y mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ohono? Os felly, beth yw eich barn ar fynd i'r afael â'r mater hwn?

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar, fe wnaethom archwilio'r mater o ariannu gwaith adferol yn y sector tai cymdeithasol, a dywedasoch mai mater i landlordiaid oedd hwn. Rydym yn ymwybodol bod pryderon yn y sector preifat hefyd y gallai'r gost o gael gwared â chladin ddisgyn ar ysgwyddau trigolion, ac efallai na allent ariannu gwaith o'r fath. Pa gefnogaeth, os o gwbl, fyddai ar gael i drigolion y gofynnir iddynt ariannu'r costau llawn eu hunain?

Pan gawsom dystiolaeth gyntaf ym mis Gorffennaf, clywsom am bryderon nad oedd gan denantiaid yn y sector preifat ddigon o gefnogaeth i ymgysylltu â'u landlordiaid a'u herio pan fyddai angen. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i gefnogi tenantiaid yn y sector rhentu preifat ar y mater hwn.

Systemau Chwistrellu

Archwiliwyd dau fater mewn perthynas â chwistrellu; gweithredu Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 a gosod systemau chwistrellu ar ôl adeiladu mewn blociau o fflatiau.

O ran y mater cyntaf, cytunodd swyddogion i roi mwy o fanylion am nifer yr adeiladau newydd nad oes angen gosod chwistrellau ynddynt oherwydd bod datblygwyr wedi cyflwyno eu cynlluniau cyn i'r gwelliannau a wnaeth y Mesur i'r Rheoliadau Adeiladu ddod i rym.

Roedd ymrwymiad hefyd i roi eglurder ynghylch yr amser oedd gan ddatblygwyr i ddechrau adeiladu, ar ôl cyflwyno cynlluniau, cyn y byddent yn ddarostyngedig i'r gofyniad i osod chwistrellau

O ran y mater ehangach o osod systemau chwistrellu ar ôl adeiladu; mae hwn yn fater y gallwn ni fel pwyllgor ddychwelyd ato yn fwy manwl maes o law. Wrth ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol cael syniad o'ch ymateb i argymhellion cychwynnol eich Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Tân, ac unrhyw waith pellach rydych yn ei roi iddo.

O ran y costau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrth wneud y gwaith diogelwch tân angenrheidiol yn dilyn trasiedi Twr Grenfell, a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch a fydd yn darparu cyllid newydd ar gyfer gwaith o'r fath yn Lloegr, gyda chanlyniadau Barnett i Gymru?

Canllaw sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn Diogelwch Tân

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, fe wnaethoch ymrwymo i ddarparu rhagor o fanylion o ran yr amserlen ar gyfer yr adolygiad a chyhoeddi'r canllawiau diwygiedig 'Fire safety in purpose built blocks of flats' sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005. Roedd hyn yn cyfeirio at dystiolaeth a gawsom gan Gyngor Caerdydd ym mis Gorffennaf 2017:

> “Now, as far as I’m aware, the Welsh Government commissioned a Welsh version of this, and I understand that is with the Welsh Government to

rubberstamp and seal at the moment. I think it was written by a fire officer, Richard Davies, and it was circulated for consultation with local authorities. So, I understand there's going to be a Welsh version of this…." Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Gorffennaf 2016, Cofnod y Trafodion [606]

Rôl y Gwasanaethau Tân ac Achub yn y trefniadau cynllunio a Rheoliadau Adeiladu

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, bu cryn drafodaeth ynglŷn ag ymgynghori ar rôl y Gwasanaethau Tân ac Achub o ran diogelwch tân mewn datblygiadau arfaethedig, yng nghyd-destun caniatâd cynllunio a chaniatâd Rheoliadau Adeiladu. Dywedodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wrthym fod ganddo 'gylch gorchwyl cyfyngedig' o ran yr hyn y gellir ymgynghori arno, sef y ffordd o ddianc a mynediad ar gyfer gwasanaethau tân a chyflenwadau dŵr. Fodd bynnag, hoffem eglurder ynghylch yr union rôl fel y nodir yn y ddeddfwriaeth ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub i roi cyngor ar ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau preswyl cyn eu hadeiladu o ran y trefniadau cynllunio a Rheoliadau Adeiladu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, ynghyd â'n pwyllgorau cyfatebol yn San Steffan a Senedd yr Alban, sef y Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau (yn y drefn honno).

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Eitem 3.2

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-28-17 Papur 4 / Paper 4

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a Chymunedau

04/10/2017

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor,

Ymchwiliad i dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'r gwahoddiad ffurfiol a dderbyniais gennych i gyfrannu tystiolaeth berthnasol i'ch cylch gorchwyl. Carwn ddiolch i chi am y cyfle i gyflwyno'r sylwadau isod. Wrth ohebu â mi ym mis Mehefin 2016 mynegodd Llywydd y Cynulliad ddymuniad i sicrhau nad yw ystyriaeth i'r Gymraeg yng ngwaith y pwyllgorau i'w gyfyngu i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'n unig. Yn hytrach, nododd y Llywydd y bwriad y byddai'r holl bwyllgorau yn ystyried y Gymraeg yng nghyd-destun eu cylchoedd gwaith. Croesawaf felly'r gwahoddiad hwn fel arwydd clir fod yr egwyddor hon yn greiddiol i waith eich Pwyllgor.

Hoffwn bwysleisio'r pwyntiau canlynol:

- Mae data penodol am lefelau incwm siaradwyr y Gymraeg yn brin. Er hyn, mae'r data sydd gennym yn awgrymu bod sefyllfa cyflogaeth siaradwyr y Gymraeg yn y sector preifat yn fwy bregus nag yn y sector cyhoeddus, yn enwedig i bobl ifanc (gweler adran 2 isod);

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- Dadleuir yn gyffredinol fod cydgysylltiad rhwng economi a hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'n debyg bod economi gwan, diffyg cyfleoedd cyflogaeth a phrinder tai fforddiadwy yn sbarduno allfudiad siaradwyr y Gymraeg - ac yn enwedig pobl ifanc - o'r ardaloedd gwledig, ac i mewn i ddinasoedd yng Nghymru a'r tu fas i Gymru. Fodd bynnag, mae angen brys am ragor o ddata am symudedd siaradwyr y Gymraeg er mwyn deall y tueddiadau hyn yn well (gweler adran 3 isod);

- Dros y blynyddoedd bu llawer o argymhellion ynghylch sut mae modd sicrhau bod yr economi a'r Gymraeg yn gweithio'n well er budd ei gilydd. Gellir tynnu sylw at rai datblygiadau cadarnhaol yn dilyn yr argymhellion hyn. Er hyn, ceir hefyd lle i wella. Er enghraifft:
  - prin yw gwerthusiadau effaith y prosiectau a ariennir;
  - mae angen am ragor o graffu systematig ar gynnydd yn erbyn ymrwymiadau strategol Llywodraeth Cymru ynghylch y Gymraeg mewn strategaethau economaidd lefel uchel;
  - mae sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth gynllunio a hybu datblygiad economaidd lleol yn her barhaus. Mae angen craffu ar effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r safonau hybu a llunio polisi i fynd i'r afael â'r her hwn;
  - ni ddatblygwyd hyd yn hyn dull o dracio symudedd siaradwyr y Gymraeg, yn enwedig pobl ifanc. Ceir rhai amcanestyniadau o dueddiadau'r dosbarthiad daearyddol o siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol. Er hyn, nid yw hi'n glir a yw'r amcanestyniadau hyn yn ystyried bob tro y tueddiadau mwy cyffredinol sydd wedi eu hadnabod yn Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2017) (gweler adran 4 isod);

- Mae goblygiadau ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer cymunedau Cymreig, a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn benodol, yn peri gofid. Croesawaf ddatganiad clir Llywodraeth Cymru bod gwarchod buddiannau

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

sectorau megis amaethyddiaeth yn flaenoriaeth. Wrth i'r broses o ymadael â'r UE fynd yn ei blaen, mae'n hanfodol fod ei effaith ar y Gymraeg yn derbyn sylw priodol. Mae'n gwbl allweddol nad yw Brecsit yn arwain at ddirywiad yn sefyllfa economaidd siaradwyr y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn hytrach, dylid sicrhau bod gweithdrefnau cymorth newydd, a ddaw yn lle'r gweithdrefnau Ewropeaidd presennol, yn atgyfnerthu cefnogaeth iddynt (gweler adran 5 isod).

1. Cyd-destun yr ymateb hwn

Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a'r dyletswyddau statudol i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod safonau.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd sef

- na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru a
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Darperir sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Yn unol â hynny, cynigir isod sylwadau mewn perthynas â chylch gorchwyl yr ymchwiliad.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Canolbwynt yr ymchwiliad presennol yw hyd a lled problem cyflog isel yng Nghymru, a dulliau o wella sefyllfa'r unigolion ag incwm isel trwy strategaethau economaidd a chynlluniau cyflogadwyedd. Gofynnir hefyd am sylwadau ar sut i greu twf economaidd sy'n fwy cynhwysol ac o fudd cyfartal i bobl ledled Cymru; a sut i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Fe'm gwahoddwyd i gyfrannu tystiolaeth am yr agweddau hyn mewn ardaloedd gwledig a chymunedau Cymraeg eu hiaith.

2. Lefel incwm siaradwyr y Gymraeg

Mae data penodol am lefelau incwm siaradwyr y Gymraeg yn brin. Yn 2013, casglodd tîm ymchwil WISERD fod siaradwyr y Gymraeg yn manteisio ar gyflog gwell yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, dadleuodd yr ymchwil fod cyflog siaradwyr y Gymraeg yn y sector preifat yn is ar gyfartaledd na chyflog y gweithwyr nad ydynt yn medru'r Gymraeg, a hynny yn raddol oherwydd proffil oedran ifancach siaradwyr y Gymraeg yn y sector hwn.[1] Mae'r data prin sydd gennym felly yn awgrymu bod sefyllfa gyflogaeth siaradwyr y Gymraeg yn y sector preifat yn fwy bregus nag yn y sector cyhoeddus, yn enwedig i bobl ifanc. Byddwn yn awgrymu i'r Pwyllgor gysylltu ag awduron yr ymchwil hwn, Dr Stephen Drinkwater a Dr Robin Mann, am ragor o fanylion.

Fodd bynnag, gallaf dynnu sylw'r Pwyllgor at ddadleuon cyffredinol ynghylch y ffactorau economaidd sy'n debygol o ddylanwadu ar sefyllfa siaradwyr y Gymraeg; argymhellion a chamau a gymerwyd hyd yma i fynd i'r afael â'r heriau; a'r angen i ymrwymo sylw penodol i effaith Brecsit ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

3. Dadleuon cyffredinol ynghylch y ffactorau economaidd sy'n debygol o ddylanwadu ar sefyllfa siaradwyr y Gymraeg

[1] WISERD, Advantage for Welsh speakers in some parts of the Labour Market
http://www.wiserd.ac.uk/news/media/press-releases/advantage-welsh-speakers-some-parts-labour-market/

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Fel y nodais yn fy Adroddiad 5 Mlynedd cyntaf (2016) 'bu cryn dipyn o drafod dros y blynyddoedd diwethaf ynghylch y cyswllt rhwng y Gymraeg a'r economi'. Ceir adroddiadau ymchwil sy'n ystyried y mater.[2] Gwelir hefyd sylw cyson i'r cydgysylltiad rhwng y Gymraeg a'r economi yn strategaethau iaith Llywodraeth Cymru.[3]

Ceir rhai casgliadau cyffredin ar draws y ffynonellau uchod ynghylch y tueddiadau a heriau economaidd sy'n effeithio ar hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn bennaf, dadleuir yn gyson fod economi gwan, diffyg cyfleoedd cyflogaeth a phrinder tai fforddiadwy yn sbarduno allfudiad siaradwyr y Gymraeg - ac yn enwedig pobl ifanc - o'r ardaloedd gwledig, ac i mewn i ddinasoedd yng Nghymru a'r tu fas i Gymru.

Dylid nodi na wyddys i sicrwydd faint o siaradwyr Cymraeg sy'n gadael eu cymunedau bob blwyddyn, nac ychwaith i ble mae'r siaradwyr Cymraeg yn symud. Dylid cofio hefyd bod amryw o ffactorau wrth wraidd sefyllfa bresennol y Gymraeg, er enghraifft effaith addysg cyfrwng Cymraeg. Er hyn, mae'r tueddiadau demograffeg ers 1981 yn ymddangos fel pe bai'n cefnogi'r dadleuon uchod. Rhwng 1981 a 2011 gwelwyd gostyngiad trawiadol mewn canrannau a niferoedd o siaradwyr y Gymraeg yn yr ardaloedd gwledig hynny lle mae'r iaith yn draddodiadol ar ei chryfaf – er enghraifft yng Ngwynedd, Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Powys. I'r gwrthwyneb, dros yr un cyfnod bu cynnydd yng nghanran siaradwyr y Gymraeg yn yr awdurdodau lleol megis Torfaen, Casnewydd a Chaerdydd.

Nid yw'r Cyfrifiad yn casglu data am siaradwyr y Gymraeg yng ngwledydd eraill Prydain. Er hyn, amcangyfrifwyd yn 2012 bod colled net o rhwng 1,200 a 2,200 o

[2] *Cynyddu Nifer y Cymunedau lle Defnyddir y Gymraeg fel Prif Iaith* (Rhagfyr 2013); *Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd* (Ionawr 2014); Prifysgol Bangor, *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned. Astudiaeth Ymchwil* (Hydref 2015); Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog (Mehefin 2016); Adroddiad gan Weithgor y Cyfrifiad i Gyngor Sir Caerfyrddin, *Y Gymraeg yn Sir Gâr* (Mawrth, 2014); Comisiynydd y Gymraeg, *Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014-2020*; Mentrau Iaith Cymru, *Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg*.

[3] *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gyfer Cymru Ddwyieithog* (2003); *Iaith fyw: Iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17* (Mawrth 2012); *Iaith fyw: Iaith byw – Bwrw mlaen* (Awst 2014); *Cymraeg 2050:Miliwn o Siaradwyr* (2017).

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

siaradwyr Cymraeg rhugl bob blwyddyn, a bod hyn yn ganlyniad allfudo o Gymru.[4] Yn ôl amcangyfrifon 2011/12, roedd ychydig dros draean y rhai hynny a oedd yn gadael Cymru bob blwyddyn yn bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed (tua 37 y cant o'r holl allfudwyr).[5] Sylwodd adroddiad yr Athro Hazelkorn yn 2015 'ar lefel y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n symud allan o Gymru'; a thuedd graddedigion â chymwysterau uwch i ymfudo, yn gysylltiedig â phrinder cyfleoedd cyflogaeth.[6] Mae'n anorfod y bydd cyfran o'r rhain sy'n allfudo yn siaradwyr Cymraeg. Nid oes gwybodaeth ar gael am y niferoedd sy'n dychwelyd i Gymru ar ôl graddio.[7]

4. Argymhellion a chamau a fu hyd yn hyn i fynd i'r afael a'r heriau

Mae'r ymchwil a fu ar y pwnc yn gytûn bod rhaid rhoi troedle economaidd i'r Gymraeg er mwyn gwrthdroi'r tueddiadau presennol a sicrhau bod cymunedau Cymraeg eu hiaith yn ffynnu. Cydnabyddir nad yw'n dasg syml. Fel y nododd y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, mae'r datrysiadau a gynigwyd hyd yn hyn 'yn cyffwrdd ag ystod eang iawn o ymyraethau posib ym maes addysg, trosglwyddiad a defnydd yr iaith, hyfforddiant, cymorth i fusnes, strategaethau economaidd rhanbarthol, strategaethau datblygu economaidd lleol, gwerth yr iaith Gymraeg fel erfyn masnacha, rôl gweithleoedd cyhoeddus fel meithrinfeydd i'r iaith ac ati.'[8] Dros y blynyddoedd siaradwyd ymysg pethau eraill am yr angen i:

- gwella sut mae'r awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth gynllunio a hybu datblygiad economaidd lleol, gan gynnwys eu swyddogaethau cynllunio cyflogaeth, gwario arian cyhoeddus a darparu gwasanaethau;
- datblygu a gweithredu strategaeth economaidd-ieithyddol ar gyfer ardaloedd penodol – 'parthau iaith economaidd arbennig' – ar gyfer siroedd Môn,

[4] Ystadegau ar gyfer Cymru, *Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg* (11 Rhagfyr 2012).
[5] StatsCymru, Llifoedd mudo yng Nghymru a gyda gwledydd DU, yn ôl tarddiad a chyrchfan (2015).
[6] Yr Athro Ellen Hazelkorn, *Tuag at 2030 - Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru. Adroddiad terfynol* (2016), t. 22.
[7] Llywodraeth Cymru, *Adolygiad o'r dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg* (Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012), t. 59.
[8] Y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog* (Mehefin 2016), t.27

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Gwynedd, Ceredigion, Caerfyrddin ac ardaloedd perthnasol cyfagos, gyda ffocws ar drefi Bangor, Aberystwyth, Caerfyrddin a Llanelli;

- sicrhau 'mewnbwn ieithyddol' wrth ddatblygu cynlluniau eangach, fel datblygiad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe;
- hybu ymddiriedolaethau datblygu cymunedol (fel y Galeri Caernarfon) ac ystyried datblygu rôl mentrau cymdeithasol a Mentrau Iaith mewn datblygu economaidd;
- manteisio ar fuddsoddiad o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020 er mwyn hybu datblygiadau allai fod yn llesol o safbwynt ardaloedd y canrannau uchel;
- gwella data am ddosbarthiad daearyddol siaradwyr y Gymraeg a datblygu dulliau o dracio symudedd pobl ifanc.

Nododd y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol nad yw hi'n glir bob tro 'i ba raddau y gweithredwyd ar yr argymhellion ... na pha wahaniaeth wnaethant hyd yn hyn'.[9] Teg dweud y gwyddom am rai enghreifftiau o ymyraethau cadarnhaol. Yn 2014 cyhoeddwyd buddsoddiad o £1.6 miliwn yn yr iaith Gymraeg dros gyfnod o ddwy flynedd.[10] Clustnodwyd rhan o'r cyfanswm hwnnw i gefnogi prosiect peilot yn Nyffryn Teifi 'er mwyn rhoi prawf ar ddull o wella sut caiff gwasanaethau busnes eu darparu' a sefydlu Cymorthfeydd Busnes Cymraeg a Chronfa i Gefnogi Busnesau Bach a Chanolig Cymraeg.[11] Roedd y gronfa yn cynnwys hefyd £750,000 i gefnogi gwaith y Mentrau Iaith o hybu'r defnydd o'r iaith yn y gymuned. Yn 2015-16 dosbarthwyd dros £1.5m i chwech o Ganolfannau Cymraeg ac Ardaloedd Dysgu drwy Grant Buddsoddi Cyfalaf Bwrw Mlaen.[12] Mis Awst eleni clustnodwyd cronfa o £400,000 i helpu mentrau bach a chanolig i fod yn fwy dwyieithog gan adeiladu ar

[9] Y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog* (Mehefin 2016), t.26-27.
[10] BBC Cymru Fyw, Buddsoddiad newydd o £1.6m i'r iaith Gymraeg (17 Mehefin 2014) http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/27885949
[11] Llywodraeth Cymru, *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012–17. Adroddiad blynyddol 2015–16* (2016) t. 4.
[12] Llywodraeth Cymru, Chwe Canolfan Gymraeg i Deuluoedd o £1.5m (27 Mehefin 2015) http://gov.wales/newsroom/welshlanguage/2015/150603-welsh-language-centres/?lang=cy

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

ganfyddiadau'r cynllun peilot yn Nyffryn Teifi.[13] Mae cytundeb y gyllideb cytunwyd yn diweddaraf rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cynnwys '£2miliwn yn rhagor ar gyfer cymorth ysgrifenyddiaeth a buddsoddi i ranbarth economaidd newydd 'Arfor' yn y Gorllewin'.[14]

Er gwaethaf y datblygiadau cadarnhaol a nodwyd uchod, ceir hefyd lle i wella. Er enghraifft, prin yw gwerthusiadau effaith y prosiectau a ariennir. Ymysg eithriadau pwysig, ceir Gwerthusiad o draweffaith economaidd a diwylliannol Canolfan Soar, Merthyr Tudful (2015) sy'n amlygu cyfraniad cadarnhaol y Ganolfan at y seilwaith economaidd a'r gymdeithasol leol. Gellir dadlau fod angen rhagor o werthusiadau o'r fath er mwyn adeiladu sail o dystiolaeth ar gyfer ymyraethau yn y dyfodol. Yn fwy cyffredinol, gellir dadlau hefyd fod angen craffu'n systematig ar gynnydd yn erbyn ymrwymiadau strategol lefel uchel Llywodraeth Cymru – er enghraifft, ei llwyddiant i wireddu uchelgais Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol i 'ddatblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth'. Mae sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth gynllunio a hybu datblygiad economaidd lleol yn her barhaus. Dadleuodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar fod fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud.[15] Serch hynny, amser a ddengys effaith gwirioneddol y fframwaith hwnnw, a dylid craffu'n fanwl ar ganfyddiadau gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth iddo asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Yn yr un modd, amser a ddengys beth fydd effaith safonau hybu a llunio polisi sy'n weithredol ar gyfer awdurdodau lleol ers mis Mawrth 2016.

Yn ogystal, er gwaethaf galwadau cyson, ni ddatblygwyd hyd yn hyn dull o dracio symudedd siaradwyr y Gymraeg, yn enwedig pobl ifanc. Wrth ymateb i argymhelliad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, cytunodd Llywodraeth Cymru i

[13] Llywodraeth Cymru, £400,000 i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnesau bach (02 Awst 2017) http://gov.wales/newsroom/welshlanguage/2017/support-use-of-welsh-within-small-businesses/?skip=1&lang=cy

[14] Llywodraeth Cymru, Cytundeb y Gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (01 Hydref 2017).

[15] Y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog* (Mehefin 2016), t. 13.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

gynnwys adran ar dueddiadau'r dosbarthiad daearyddol o siaradwyr Cymraeg dros y 25 mlynedd nesaf yn ei hadroddiad cyntaf ar dueddiadau tebygol y dyfodol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.[16] Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn 2017 yn sylwi ar dueddiadau demograffeg siaradwyr y Gymraeg hyd yn hyn, ond nid oes ymgais i ragweld y tueddiadau dros y blynyddoedd i ddod.[17] Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod yr adroddiad sy'n amcangyfrif newidiadau poblogaeth fesul ardal yn rhagweld effaith gynyddol mudo ar boblogaeth Cymru, a'r angen am ragor o dai, a hynny ar frys.[18] Fodd bynnag, cyhoeddwyd Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg 2011-2050 i gyd-fynd â thargedau Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Mae'r ddogfen hon yn hynod o ddefnyddiol. Er hyn, mae'n ymddangos bod yr amcanestyniadau ynghylch y ffactorau megis mudo wedi eu seilio ar dueddiadau'r gorffennol.[19] Os felly, gellir dadlau nad ydynt yn adlewyrchu ar bob adeg y tueddiadau sydd wedi'u hadnabod yn Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol.

5. Effaith Brecsit ar gymunedau Cymraeg eu hiaith

Wrth ystyried hyfywedd economaidd cymunedau Cymraeg eu hiaith ni ellir peidio â sôn am effaith Brecsit. Gwyddom o Gyfrifiad 2011 ac ymchwil pellach[20] bod amaethyddiaeth, lletygarwch a gwasanaethau bwyd ymysg y sectorau sydd â niferoedd a chanrannau uchel o siaradwyr y Gymraeg.[21] Fel y mae Llywodraeth Cymru yn ei gydnabod, dyma'r meysydd cyflogaeth sy'n cynnal cymunedau mewn ardaloedd gwledig lle mae canrannau a niferoedd o siaradwyr y Gymraeg yn

[16] Y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog* (Mehefin 2016) t. 15
[17] Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru 2017: Cymdeithas a Diwylliant (5 Mai 2017).
[18] Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru 2017: Cymdeithas a Diwylliant (5 Mai 2017); Tueddiadau'r dyfodol, 2017: Poblogaeth (5 Mai 2017).
[19] Gweler tudalen 4 yr adroddiad.
[20] Llywodraeth Cymru, *Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector* (2014).
[21] Amaethyddiaeth, egni a dwr yw'r diwydiannau sydd â'r ganran uchaf o weithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg (29.5 y cant). Cyflogir hefyd niferoedd a chanrannau uchel o siaradwyr y Gymraeg gan y diwydiant dosbarthu, llety a gwasanaethau bwyd – tua 44,000 sef tua 15 y cant o weithlu'r sector. http://gov.wales/docs/statistics/2013/131129-welsh-language-labour-market-en.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

draddodiadol uchel ond lle maent wedi gostwng dros y degawd diwethaf.[22] Os derbynnir casgliadau ymchwil WISERD (gweler uchod), mae cyflogaeth siaradwyr y Gymraeg yn y sectorau preifat hyn yn gymharol fwy bregus yn nhermau incwm nag yn y sector cyhoeddus.

Mae cefnogaeth ariannol yr UE i Gymru'n bellgyrhaeddol, yn enwedig yn y sector amaethyddiaeth: '[m]ewn termau cyllidebol, mae Cymru ar ei hennill o fod yn aelod o'r UE'.[23] Yn ogystal â chronfeydd megis Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, a Chronfeydd Strwythurol yr UE ceir rhaglenni sy'n darparu cymorth yn benodol i gymunedau gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys taliadau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin, sef cynllun cymorthdaliadau o £200-£274 miliwn y flwyddyn i ffermwyr a thirfeddianwyr Cymru.[24] Ceir hefyd cymorth ariannol trwy Raglen Datblygu Gwledig, sy'n darparu '£957 miliwn i gefnogi busnesau, ffermwyr, cefn gwlad a chymunedau mewn ardaloedd gwledig'.[25]

Er ni wyddys ar hyn o bryd beth fydd y strwythur a maint y cymorth i'r sector yn dilyn ymadael â'r UE, mae goblygiadau posibl ar gyfer cymunedau Cymreig, a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn benodol, yn peri gofid. Dadleuodd Llywodraeth Cymru os bydd unrhyw rwystr yn codi rhag i fusnesau Cymreig gael mynediad at y Farchnad Sengl, y 'bydd sector ffermio a bwyd Cymru yn wynebu bygythiad uniongyrchol' o ganlyniad i lefel uchel Tariff Allanol Cyffredin yr UE ar gynnyrch amaethyddol.[26] Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar i Bwyllgor yr Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, mae 92 y cant o allforion y sector yn mynd i'r UE.[27] Clywodd y Pwyllgor am bwysigrwydd diwylliannol y sector amaethyddiaeth, yn

[22] *Cymraeg 2050:Miliwn o Siaradwyr* (2017), t. 16.
[23] Awgrymodd ymchwil Prifysgol Caerdydd *Wales and the EU Referendum: Estimating Wales' Net Contribution to the European Union* ffigur o £659 miliwn yn 2014. Yn ôl Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd mae Cymru yn derbyn tua £680 miliwn o gyllid yr UE bob blwyddyn (Diogelu Dyfodol Cymru, 2017).
[24] Mae'r union ffigwr yn amrwymo: Llywodraeth Cymru, Cronfeydd yr UE yng Nghymru (18 Mai 2017); Llywodraeth Cymru, Diogelu Dyfodol Cymru (2017), t. 21; Full Fact, Is Wales getting the best deal out of the EU? (5 Mehefin 2014).
[25] Llywodraeth Cymru, Cronfeydd yr UE yng Nghymru (18 Mai 2017).
[26] Llywodraeth Cymru, Diogelu Dyfodol Cymru (2017), t. 21.
[27] Ty'r Arglwyddi, Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd, *Brexit: devolution* (Mehefin, 2017) t.29.


Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

enwedig fel cadarnle'r Gymraeg, ac effaith ‘ddinistriol’ bosibl Brecsit ar gymunedau gwledig sy’n economaidd fregus.[28] Afraid dweud bod sectorau eraill hynod o bwysig i’r Gymraeg, megis sector diwydiannau creadigol, hefyd yn debygol o golli cyfleodd i fanteisio ar gefnogaeth ariannol.[29]

Yn y cyd-destun hwnnw, croesawaf ddatganiad clir Llywodraeth Cymru bod gwarchod buddiannau’r diwydiant yn sgil ymadawiad y DU o’r Undeb Ewropeaidd yn flaenoriaeth.[30] Wrth i’r broses o ymadael â’r UE fynd ar ei flaen, mae’n hanfodol fod ei effaith ar y Gymraeg yn derbyn sylw priodol. Mae’n gwbl allweddol nad yw Brescit yn arwain at ddirywiad yn sefyllfa economaidd siaradwyr y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Yn hytrach, dylid sicrhau bod gweithdrefnau cymorth newydd, a ddaw yn lle’r gweithdrefnau Ewropeaidd presennol, yn atgyfnerthu’r gefnogaeth iddynt.

Hyderaf y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd.

Yr eiddoch yn gywir,



Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

[28] Ty’r Arglwyddi, Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd, *Brexit: devolution* (Mehefin, 2017) t.32.
[29] Er enghraifft, cefnogwyd cynharchiad llwyddiannus S4C Y Gwyll trwy gronfa Ewropeaidd ‘EU's MEDIA programme’ ac ‘Ewrop Creadigol’ yn diweddarach.
[30] *Cymraeg 2050:Miliwn o Siaradwyr* (2017), t. 62.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon